



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cronfa Ariannol wrth Gefn i Fyfyrrwyr (CAWG) ar gyfer Myfyrrwyr Addysg Bellach 2021/2022 – Nodiadau Cyfarwyddyd

Problemau ariannol yn ei gwneud yn anodd i chi fynychu'r Coleg? Os felly, efallai y gallai'r Gronfa fod o gymorth...

BETH YW'R GRONFA ARIANNOL WRTH GEFN?

Pot o arian, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, y gall myfyrrwyr addysg bellach amser llawn a rhan-amser sy'n profi caledi ariannol wneud cais i dderbyn cymorth ganddo. Rhaid ymgeisio am y gronfa bob blwyddyn. Ni wneir taliadau fel hawl awtomatig.

PA GYMORTH ARIANNOL A ALLAI GAEL EI DDYRANNU I MI?

Costau gofal plant, teithio, prydau o fwyd, cyfarpar a dillad sy'n ymwneud â'ch cwrs, llety, costau eraill.

CLUDIANT

Mae angen i bob myfyriwr hyd at 21 oed wneud cais am Fy Ngherdyn Teithio gan Lywodraeth Cymru (MTP)

- Gall myfyrrwyr Castell-nedd brynu M-Ticket o fysus First Cymru am £100 y tymor gyda MTP a £150 hebddo. Os bydd cais y gronfa hon yn llwyddiannus, gellir ad-dalu'r ffi dymhorol ar ôl cyflwyno'r dderbynneb wreiddiol.
- Gall myfyrrwyr Powys sy'n derbyn LCA wneud cais i'r CAWG am gymorth gyda chost cerdyn bws os nad ydych yn gymwys i gael un am ddim (sy'n byw mwy na 3 milltir o'r coleg, yn 16-18 oed).

PRYDAU O FWYD YN Y COLEG

Gall prydau o fwyd am ddim fod ar gael i fyfyrrwyr cymwys, ond dim ond ar gyfer y diwrnodau yr ydych yn gorfod mynychu'r Coleg.

DILLAD AC OFFER AR GYFER EICH CWRS

Efallai y bydd modd i chi gael cymorth i brynu eitemau megis dillad neu gyfarpar arbennig a fydd eu heisiau ar gyfer eich cwrs. Os ydych yn gadael eich cwrs yn gynnar, bydd gofyn ichi ddychwelyd pob eitem i'r Coleg, neu byddwch yn cael anfoneb am y gost.

YMWELIADAU SY'N YMWNEUD Â'CH CWRS

Rhaid iddynt fod yn hanfodol ar gyfer y cwrs, wedi'u cytuno ymlaen llaw yn y Coleg a rhaid i Gymorth i Fyfyrrwyr gael ei hysbysu.

GOFAL PLANT

Gall y Gronfa dalu am ofal plant gyda gofalwr plant cofrestredig ar gyfer 1 plentyn yn unig. Os mae llefydd ar gael ym Meithrinfa'r Coleg (Coleg Castell-nedd yn unig) rhaid defnyddio'r rhain yn y lle cyntaf.

COSTAU ERAILL

Efallai y byddant yn cael eu hystyried – gofynnwch os gwelwch yn dda.

A YDYCH YN GYMWYS I WNEUD CAIS CAWG?

I fod yn gymwys, mae angen i chi fod yn 16 oed neu drosodd, wedi ymrestru am gwrs Addysg Bellach amser llawn neu ran-amser yn y Coleg (o leiaf 275 awr y flwyddyn academiaidd). Mae'r gronfa hon yn destun prawf modd.

Os ydych rhwng 16 a 18 oed ar 31 Awst 2021, rhaid ichi wneud cais am y Lwfans Cynhaliath Addysg yn y lle cyntaf. (LCA).

Os ydych yn 19 oed neu drosodd ar 31 Awst 2021, rhaid ichi wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf. (GDLIC).

Gallwch gael ffurflen gais am LCA neu GDLIC yng Nghymorth i Fyfyrrwyr neu gallwch lawr lwytho ffurflen ar wefan Cyllid Myfyrrwyr Cymru www.cyllidmyfyrrwyr.co.uk

Os nad ydych yn gymwys i dderbyn LCA neu GDLIC ac os oes gennych problemau ariannol sy'n ei gwneud yn anodd i chi ddod i'r coleg, gofynnwch i aelod o'r Tîm Cymorth i Fyfyrrwyr yn y Parth Myfyrrwyr yn y coleg,

SUT I WNEUD CAIS

Bydd ffurflenni cais CAWG ar gael gan Wasanaethau Myfyrrwyr ar adeg gofrestru ym mis Awst/Medi.

Sylwch os gwelwch yn dda, mae'r rhan fwyaf o geisiadau am gyllid yn seiliedig ar y ffaith bod taliadau LCA neu GDLIC wedi'u dyfarnu eisoes ond bydd y Coleg yn ystyried achosion eithriadol ar sail unigol.

PWYSIG

Mae cymorth gan y CAWG yn dibynnu ar angen, ac felly bydd y symiau a ddyrennir yn amrywio. Mae'r Gronfa yn gyfyngedig ac fe'i dyrennir ar sail y cyntaf i'r felin, felly mae cais cynnar yn hanfodol. Pan fydd yr arian yn y Gronfa wedi mynd, dyna'r cyfan

ANFONWCH EICH FFURFLEN I:

studentsupport@nptcgroup.ac.uk neu galwch heibio i'r Parth Myfyrrwyr ar unrhyw safle.

Rhaid ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais. Os oes unrhyw beth ar goll, bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch, a bydd oedi gyda'ch cais. D.S. Gyda rhai mathau o gymorth, bydd angen dogfennau ychwanegol. (e.e. Gofal Plant)

E-bostiwch studentsupport@nptcgroup.ac.uk, ffoniwch Cymorth i Fyfyrrwyr ar 01639 648000 (Castell-nedd) neu 01686 614200 (Powys), os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich ffurflen a bydd y Tîm Cymorth i Fyfyrrwyr yn hapus i'ch helpu. Byddwn yn ysgrifennu atoch am eich cais cyn gynted ag y bo modd. I apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau, cysylltwch â studentsupport@nptcgroup.ac.uk os gwelwch yn dda.

MAE UNRHYW ARIAN A DDYRENNIR YN AMODOL AR BRESNOLDEB LLAWN YN Y COLEG